PARENT REQUEST FOR AUTHORISED ABSENCE / NOTIFICATION OF ABSENCE DURING TERM TIME

Before applying to take a term time absence please consider the following:
Ongoing low attendance is a factor often linked to low levels of academic success and can have a serious impact on opportunities later in life. Children who are absent from school in term time will miss out on important learning opportunities - educational experiences missed cannot be re-captured later.

Your child's teacher will not be able to go back over everything your child has missed. Due to the need for teacher/pupil input into many of our learning experiences, it is not always feasible to provide you with work to complete during the absence.

As a parent/carer you can demonstrate your commitment to your child's education by, whenever possible, avoiding term time absences. It is important that term time absences do not contribute to developing poor habits of attendance which are hard to undo later on.

For holidays:

Please note that **there is not an automatic right to withdraw pupils from school for a holiday** and this form, if it is a request for that purpose, is merely a request for permission.

There is a margin of discretion for head teachers to agree to your request and in line with national guidance, your child(ren)'s absence will be judged on merit and may **not be authorised**.

Please see our school policy on attendance (on our school website). You will be notified of the decision shortly.

Please note: **WG guidance states that schools cannot authorise holidays retrospectively**
.
Should your child accumulate a level of unauthorised absence which brings their attendance below 90% during the year, the Local Authority may (depending on the circumstances) issue a Penalty Notice or commence formal prosecution for failing to secure regular attendance at school. The full details of the Penalty Notice scheme can be requested from Pembrokeshire County Council.

Section A:
THIS SECTION MUST BE COMPLETED BY THE PARENT/CARER AND THIS APPLICATION FORM FORWARDED TO SCHOOL AS EARLY AS POSSIBLE BEFORE THE ABSENCE – IDEALLY AT LEAST TWO WEEKS BEFORE.

Names of Pupils:

1. ……..……..…..
Class:……

2. ……..……..……..……....
Class:……

3. ……..……..…
Class:……

Absence dates: From…… To: ……. Number of

days absent: …….....

B. Holiday address/contact details (for child protection procedures):

_____

Is there a sibling(s) from another school who will also be absent for the same reasons. If so, please provide name of the sibling and school attended:
_____

My views, reasons and the purpose for requesting a term time absence are (please continue on separate sheet(s) if required)
_____
_____
_____

Signed: ……. Parent/Carer

Date: …….

If the pupil/s do/does not return by the agreed date they are at risk of losing their school place/s and they may be removed from the school register in accordance with the admission guidance Education (Pupil Registration) (Wales) Regulations 2010 section 4 which states 'the pupils has ceased to attend the school and no longer resides within a reasonable distance from the school'. Please note that we cannot guarantee that a place will be available for your child in the school of your choice on your return but you will be offered a place at the nearest school with room available in the year group. Failure to return on the agreed date may also prompt welfare concerns; a child who goes missing from education may be considered to be at risk of significant harm. Any such concerns will immediately be referred to the statutory authorities for consideration.

Date: _____ Received by school: _____

Signed: _____
Please return to the School Office.

CAIS RHIANT AM ABSENOLDEB AWDURDODEDIG / HYSBYSU YNGHYLCH ABSENOLDEB YN YSTOD Y TYMOR

Cyn gwneud cais am absenoldeb yn ystod y tymor, ystyriwch y canlynol:
Mae presenoldeb isel parhaus yn ffactor sy'n aml yn gysylltiedig â lefelau isel o lwyddiant academaidd a gall gael effaith ddifrifol ar gyfleoedd yn ddiweddarach mewn bywyd. Bydd plant sy'n absennol o'r ysgol yn ystod y tymor yn colli allan ar gyfleoedd dysgu pwysig - ni ellir ailedrych yn ddiweddarach ar brofiadau addysgol a gollwyd.

Ni fydd athro eich plentyn yn gallu edrych yn ôl dros bopeth y mae eich plentyn wedi ei golli. O ganlyniad i'r angen am fewnbwn athro/disgybl i lawer o'n profiadau dysgu, nid yw hi bob amser yn bosibl rhoi gwaith i chi ei gwblhau yn ystod yr absenoldeb.

Fel rhiant/gofalwr, gallwch ddangos eich ymrwymiad i addysg eich plentyn trwy osgoi absenoldebau yn ystod y tymor, ble bynnag y bo modd. Mae'n bwysig nad yw absenoldebau yn ystod y tymor yn cyfrannu at ddatblygu arferion gwael o ran presenoldeb y mae'n anodd eu dadwneud yn ddiweddarach.

Ar gyfer gwyliau:

Sylwer **nad oes yna hawl fel mater o drefn i dynnu disgyblion o'r ysgol ar gyfer gwyliau** a chais am ganiatâd yn unig yw'r ffurflen hon, os yw'n gais at y diben hwnnw.

Mae gan benaethiaid rywfaint o ddisgresiwn i gytuno â'ch cais, ac yn unol ag arweiniad cenedlaethol, bydd absenoldeb eich plentyn/plant yn cael ei farnu ar sail teilyngdod ac efallai **na fydd** yr absenoldeb yn cael ei awdurdodi.

Gweler ein polisi ysgolion ar bresenoldeb (ar ein gwefan ysgolion). Byddwch yn cael gwybod am y penderfyniad yn fuan.

Sylwer: **mae arweiniad LlC yn datgan na all ysgolion awdurdodi gwyliau yn ôl-ddilynol.**

Os bydd eich plentyn yn cronni lefel o absenoldeb anawdurdodedig sy'n golygu bod ei gyfradd presenoldeb islaw 90% yn ystod y flwyddyn, gallai'r Awdurdod Lleol (yn dibynnu ar yr amgylchiadau) gyhoeddi Hysbysiad Cosb neu ddechrau erlyniad ffurfiol am fethu sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol. Gellir gofyn am fanylion llawn am y cynllun Hysbysiad Cosb gan Gyngor Sir Penfro.

Adran A:
RHAID I'R ADRAN HON GAEL EI LLENWI GAN Y RHIANT/GOFALWR A RHAID ANFON Y FFURFLEN GAIS HON I'R YSGOL CYN GYNTED AG Y BO MODD CYN YR ABSENOLDEB – O LEIAF BYTHEFNOS YNGHYNT, YN DDELFRYDOL.

Enwau'r Disgyblion:

1. ……..…..
Dosbarth:……

2. ……..……..……..……....
Dosbarth:……

3. ……..……..…
Dosbarth:……

Dyddiadau'r absenoldeb: O…… Tan: …….

Nifer y diwrnodau y bydd y disgybl yn absennol: …….....

B. Cyfeiriad/manylion cyswllt ar y gwyliau (ar gyfer gweithdrefnau amddiffyn plant):
_____

A oes brawd/chwaer neu frodyr/chwiorydd o ysgol arall a fydd yn absennol am yr un rhesymau hefyd? Os felly, rhowch enw'r brawd/chwaer a'r ysgol y mae'n ei mynychu:
_____
_____

Dyma fy safbwyntiau, rhesymau a'r diben dros ofyn i'm plentyn/plant gael bod yn absennol yn ystod y tymor (parhewch ar ddalen(ni) ar wahân os bydd angen)
_____
_____
_____

Llofnod: ……. Rhiant/Gofalwr
Dyddiad: ……

Os na fydd y disgybl/disgyblion yn dychwelyd erbyn y dyddiad cytûn, mae/maent mewn perygl o golli ei le(oedd) ysgol a gellir dileu ei enw/eu henwau oddi ar gofrestr yr ysgol, yn unol â'r arweiniad ar dderbyn, Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010, adran 4 sy'n datgan: 'mae'r disgyblion wedi rhoi'r gorau i fynychu'r ysgol ac nid yw'n byw o fewn pellter rhesymol o'r ysgol mwyach'. Sylwer na allwn sicrhau y bydd lle ar gael i'ch plentyn yn yr ysgol o'ch dewis pan fyddwch yn dychwelyd, ond byddwch yn cael cynnig lle yn yr ysgol agosaf sydd â lle ar gael yn y grŵp blwyddyn. Gallai peidio â dychwelyd ar y dyddiad cytûn sbarduno pryderon ynghylch lles hefyd; gellir ystyried bod plentyn sy'n mynd ar goll o addysg mewn perygl o niwed sylweddol. Bydd unrhyw bryderon o'r fath yn cael eu cyfeirio at yr awdurdodau statudol i'w hystyried ar unwaith.

Dyddiad:_____ Derbyniwyd gan yr ysgol:_____

Llofnodwyd:_____
Dychweler i Swyddfa'r Ysgol.